

# Cynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

Paratowyd yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

## Cynnwys

1.	Cynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol	3
2.	Cynllunio a darparu gwasanaethau	5
3.	Ymdrin â'r cyhoedd yng Nghymru	7
4.	Ein hwyneb gyhoeddus	10
5.	Gweithredu'r Cynllun	14
6.	Atodiad 1 Cynllun iaith Gymraeg yr FCA – Cynllun Gweithredu	17
7.	Atodiad 2 Canllaw cynhyrchu deunyddiau defnyddiwr, cyhoeddiadau corfforaethol a ffurflenni FCA	19
8.	Atodiad 3 Canllaw Cyfarfodydd a Digwyddiadau i FCA – Cynllun Iaith Gymraeg	22



### Symud o amgylch y ddogfen hon

Defnyddiwch yr offer ar eich porwr i lywio.

I **chwilio** ar PC defnyddiwch Ctrl + F neu Command + F ar Mac.



### Cofrestrwch i dderbyn cyhoeddiadau a newyddion diweddaraf

Gweld ein datganiadau i'r wasg, ymgynghoriadau ac areithiau diweddaraf.

### Gofyn am fformat gwahanol

Cwblhewch y ffurflen hon os ydych angen fformat gwahanol.

# Cynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

## 1. Cyflwyniad

---

- 1.1** O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, rhaid i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru baratoi cynllun sy'n nodi sut y bydd yn darparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg.
- 1.2** Dyma Gynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA). Mae'n disgrifio sut y byddwn yn gweithredu, cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, yr egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru.
- 1.3** Mae'r cynllun yn cwmpasu'r gweithgareddau a'r gwasanaethau a ddarparwn neu a fwriedir ar gyfer aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru, neu wasanaethau a ddarperir yn ehangach ac sy'n cynnwys Cymru. Yn y cynllun hwn, ystyr y term 'cyhoedd' yw unigolion, personau cyfreithiol a chyrff corfforaethol. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn gyffredinol, neu ran o'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term yn cynnwys mudiadau gwirfoddol ac elusennau. Mae cyfarwyddwyr ac eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig hefyd o fewn ystyr y term 'cyhoedd'. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys personau sy'n gweithredu mewn swydd sy'n cynrychioli'r Goron, y Llywodraeth na'r Wladwriaeth. O ganlyniad, nid yw personau sy'n cyflawni swyddogaethau swyddogol o natur cyhoeddus, hyd yn oed os ydynt yn 'bersonau' cyfreithiol, yn dod o fewn ystyr y gair 'cyhoeddus' pan fyddant yn cyflawni'r swyddogaethau swyddogol hynny.
- 1.4** Mae gwybodaeth bellach am gwmpas a phwrpas cynlluniau iaith Gymraeg i'w gweld yng nghanllawiau Comisiynydd y Gymraeg ar eu gwefan. [Cynlluniau iaith Gymraeg \(comisiynyddygyymraeg.cymru\)](http://comisiynyddygyymraeg.cymru)
- 1.5** Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn yn adeiladu ar gyflawniadau ein cynlluniau blaenorol o ran cryfhau ein gwasanaethau Cymraeg. Cafodd y cynllun hwn gymeradwyaeth Comisiynydd y Gymraeg o dan adran 16 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar y 23ain o Chwefror 2023.
- 1.6** Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn trosglwyddo swyddogaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, sy'n ymwneud â Chynlluniau Iaith Gymraeg i Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r Mesur hefyd yn rhoi grym cyfreithiol i statws swyddogol y Gymraeg. Mae'r FCA wedi ymrwmo i gymryd camau cadarnhaol i weithredu swyddogaethau perthnasol o dan y Mesur.

## 2. Cefndir y sefydliad

---

- 2.1** Yr FCA yw'r rheoleiddiwr ymddygiad ar gyfer 56,000 o gwmnïau gwasanaethau ariannol a marchnadoedd ariannol yn y DU a'r rheoleiddiwr darbodus ar gyfer dros 24,000 o'r cwmnïau hynny, mae dros 10,000 o'r cwmnïau hyn wedi'u lleoli yng Nghymru.
- 2.2** Ein hamcan strategol yw sicrhau bod y marchnadoedd perthnasol yn gweithio'n dda a'n hamcanion gweithredol yw:
- Diogelu defnyddwyr – rydym yn sicrhau lefel briodol o ddiogelwch i ddefnyddwyr.
  - Diogelu marchnadoedd ariannol – rydym yn diogelu ac yn gwella uniondeb system ariannol y DU.
  - Hyrwyddo cystadleuaeth – rydym yn hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol er budd defnyddwyr.
- 2.3** Rydym yn gorff cyhoeddus annibynnol a ariennir yn gyfan gwbl drwy godi ffi ar y cwmnïau yr ydym yn eu rheoleiddio. Yr ydym yn atebol i'r Trysorlys, sy'n gyfrifol am system ariannol y DU, ac i Senedd y DU.
- 2.4** Diffinnir ein gwaith a'n diben gan Ddeddf Gwasanaethau Ariannol a Marchnadoedd 2000 (FSMA). Rydym yn gweithio gyda grwpiau defnyddwyr, cymdeithasau masnach a chyrff proffesiynol, rheoleiddwyr domestig, deddfwyr yr UE ac ystod eang o randdeiliaid eraill. Gyda'r cylch gwaith helaeth hwn, rydym yn defnyddio dull cymesur o reoleiddio, gan flaenoriaethu'r ardaloedd a'r cwmnïau sy'n peri risg uwch i'n hamcanion. Mae gennym ddyletswydd o dan yr FSMA i ddefnyddio ein hadnoddau'n economaidd ac yn effeithlon.
- 2.5** Mae ein pencadlys yn Llundain, ac mae gennym swyddfeydd yng Nghaeredin a Leeds ble cyflogir tua 4,000 o staff - gan ddarparu gwasanaethau i gwmnïau ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- 2.6** Ein gwefan yw [www.fca.org.uk](http://www.fca.org.uk) a gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein hymrwymiad i'r Gymraeg [yma](#). Rhoddir manylion cyswllt mewn perthynas â'r cynllun hwn ar ddiwedd y ddogfen hon.

## Cynllunio a darparu gwasanaethau

### 3. Polisiau, deddfwriaeth a mentrau

---

- 3.1 Bydd ein polisiau, ein mentrau a'n gwasanaethau yn gyson â'r cynllun hwn. Byddwn yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg a byddwn, lle bynnag y bo modd, yn galluogi'r cyhoedd yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywydau o ddydd i ddydd.
- 3.2 Pan fyddwn yn cyfrannu at ddatblygu neu gyflawni polisiau, mentrau, gwasanaethau neu ddeddfwriaeth newydd dan arweiniad sefydliadau eraill, byddwn yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n gyson â'r cynllun hwn.

### 4. Darparu gwasanaethau

---

- 4.1 Byddwn yn sicrhau bod cynifer o'n gwasanaethau ag sy'n rhesymol ymarferol ar gael yn Gymraeg.
- 4.2 Bydd gennym dudalen we bwrpasol yn amlinellu ein hymrwymiad i'r Gymraeg a bydd yr holl wasanaethau ac adnoddau sydd ar gael yn Gymraeg yn cael eu cynnig yn rhagweithiol ac ar gael mewn un lle, lle mae adnoddau ar gael yn Gymraeg, byddant hefyd ar gael ochr yn ochr â'r adnodd Saesneg ar ein gwefan.

### 5. Ein swyddogaethau rheoleiddio – a gwasanaethau a gyflawnir ar ein rhan gan drydydd partïon

---

- 5.1 Bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau a wnawn gyda thrydydd partïon yn gyson â rhannau perthnasol y cynllun hwn, pan fo'r cytundebau neu'r trefniadau hynny'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Lle y bo'n berthnasol, byddwn yn monitro cynnydd ac yn gosod dangosyddion perfformiad ar gyfer trydydd partïon er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hynny'n cael eu darparu yn unol â'r cynllun hwn.
- 5.2 Bydd yr uchod yn cynnwys gwasanaethau sydd wedi'u contractio allan, rhoi trwyddedau a rhoi caniatadau eraill.

## 6. Safonau ansawdd

---

- 6.1** Byddwn yn gweithio ar y sail y bydd gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg a Saesneg o ansawdd cyfartal, yn cael eu darparu o fewn yr un amserlen ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 6.2** Bydd unrhyw fath o gyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru, nad yw'r cynllun hwn yn ymdrin ag ef yn benodol, yn cael ei wneud mewn modd sy'n gyson ag egwyddorion cyffredinol y cynllun hwn.

# Ymdrin â'r cyhoedd yng Nghymru

## 7. Gohebiaeth

---

- 7.1** Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, a byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd rhagweithiol i hyn, yn cynnwys o fewn cyhoeddiadau a hysbysiadau sy'n gwahodd personau i ymateb ble bo perthnasedd i gynulleidfa Gymreig.
- 7.2** Pan fyddwn yn anfon ein Hadroddiad Blynyddol i gwmni, unigolyn, grŵp neu sefydliad yng Nghymru, fe wnawn hynny yn ddwyieithog, ac yn hysbysu'r derbynwyr ein bod yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg.
- 7.3** Byddwn yn sicrhau bod un cyfeiriad e-bost ar gael ac yn cael ei hyrwyddo ar gyfer pob ymholiad cyffredinol yn y Gymraeg.
- 7.4** Bydd ein gohebiaeth awdurdodi cyntaf gyda chwmni, unigolyn, grŵp neu sefydliad yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd fersiwn Cymraeg yr ohebiaeth hon yn cynnwys trosolwg o'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg ac yn cadarnhau fod yr FCA yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a na fydd gohebu â ni yn y Gymraeg yn arwain at oedi.
- 7.5** Os byddwn yn derbyn gohebiaeth gan berson yn Gymraeg, byddwn yn ymateb yn Gymraeg (os oes angen ateb), oni bai bod y person hwnnw wedi nodi nad oes angen ymateb yn Gymraeg.
- 7.6** Bydd targedau ymateb i ohebiaeth yr un fath ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg.
- 7.7** Os bydd unigolyn (gan gynnwys cwmni, grŵp neu sefydliad) yn dweud wrthym eu bod yn dymuno derbyn gohebiaeth gyffredinol yn Gymraeg, byddwn yn cadw cofnod o hyn, a bydd unrhyw ohebiaeth / gohebiaeth gyffredinol a anfonir o hynny ymlaen yn Gymraeg. Ni fydd gohebiaeth gyffredinol yn cynnwys gohebiaeth o natur arbenigol neu oruchwylio, er enghraifft wrth gynnal ymchwiliadau ac ymateb i gwynion neu ohebiaeth a gynhrychir yn awtomatig gan ein systemau.
- 7.8** Bydd atodiadau a anfonir gyda llythyrau gohebu cyffredinol dwyieithog bob amser yn ddwyieithog, pan fydd y deunydd ar gael.
- 7.9** Bydd unrhyw atodiadau a anfonir at y rhai sydd wedi nodi gohebiaeth Gymraeg yn ôl eu dewis yn Gymraeg neu'n ddwyieithog pan fydd y deunydd ar gael.
- 7.10** Pan fyddwn yn anfon gohebiaeth dorfol a fwriedir ar gyfer cynulleidfa yng Nghymru'n unig, byddwn yn gwneud hynny'n ddwyieithog.
- 7.11** Os byddwn yn cynhyrchu fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg cyfatebol, ar wahân o ohebiaeth, ni fyddwn yn trin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (er

enghraifft, os llofnodir y fersiwn Saesneg, neu os darperir manylion cyswllt ar y fersiwn Saesneg, yna bydd y fersiwn Gymraeg yn cael ei drin yn yr un modd).

## 8. Cyfathrebu dros y ffôn

---

- 8.1** Byddwn yn darparu opsiwn iaith Gymraeg ar ein prif linellau cymorth ffôn i Ddefnyddwyr a Chwmnïau lle gall galwyr siarad â'r FCA yn Gymraeg. Caiff hyn ei hwyluso drwy wasanaeth cyfieithu ar y pryd 'galw nol', fydd yn cael ei gynnig ddim hwyrach na diwedd y diwrnod gwaith canlynol.
- 8.2** Pe byddai'n rhaid trosglwyddo'r alwad i ffwrdd o'r FCA i sefydliad arall, bydd y galwr yn cael gwybod y gallai hyn effeithio ar y gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg.
- 8.3** Bydd galwadau i'r FCA sydd yn cael eu hateb yng Nghymru gyda chyfarchiad dwyieithog.

## 9. Cyfarfodydd cyhoeddus neu Ddigwyddiadau

---

- 9.1** Mae cyfarfodydd neu ddigwyddiadau cyhoeddus a gynhelir yng Nghymru ac a gynnullir gennym bob amser yn cael eu hysbysebu a'u hyrwyddo'n ddwyieithog, gyda gwahoddiadau (boed yn electronig neu'n gopi caled) yn cael eu hanfon yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- 9.2** Byddwn yn gofyn yn rhagweithiol i wahoddedigion/cynrychiolwyr a ydynt yn dymuno cyfrannu yn Gymraeg mewn cyfarfod neu ddigwyddiad cyhoeddus. Lle mae o leiaf 20% o'r rhai a wahoddwyd wedi ein hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod neu ddigwyddiad, byddwn yn trefnu i wasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg fod ar gael yn y cyfarfod neu'r digwyddiad. Mewn rhai amgylchiadau eithriadol, ac os bernir bod hynny'n briodol gan y rhai sy'n trefnu'r cyfarfod cyhoeddus, byddwn yn trefnu cyfieithu ar y pryd yn awtomatig.
- 9.3** Mae cyfarfodydd neu ddigwyddiadau cyhoeddus a gynhelir yng Nghymru sydd yn agored i'r cyhoedd heb wahoddiad bob amser yn cael eu hysbysebu a'u hyrwyddo'n ddwyieithog. Bydd y sawl sydd yn bresennol yn cael gwybod fod croeso iddynt gyfrannu yn y Gymraeg a bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i Saesneg ar gael.
- 9.4** Pan fyddwn yn arddangos unrhyw ddeunydd ysgrifenedig mewn cyfarfod neu ddigwyddiad cyhoeddus, byddwn yn sicrhau bod y deunydd yn cael ei arddangos yn Gymraeg a Saesneg, ac ni fyddwn yn trin unrhyw destun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.

## 10. Cyfarfodydd eraill gyda'r cyhoedd yng Nghymru

---

- 10.1** Ni fyddai'n ymarferol yn gyffredinol i staff yr FCA gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r cyhoedd yn Gymraeg oni bai bod y gwasanaeth hwn yn cael ei gynnig a'i hysbysebu'n benodol.



## 11. Ymwneud arall â'r cyhoedd yng Nghymru

---

- 11.1** Pan fyddwn yn cynnal arolygon papur / ar-lein gyda'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn sicrhau y bydd pob agwedd ar gyfathrebu ar gael yn ddwyieithog, a bydd ymatebwyr yn gallu cwblhau'r arolwg yn Gymraeg neu yn Saesneg.

## Ein hwyneb gyhoeddus

### 12. Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebu

---

- 12.1** Pan fyddwn yn cynnal ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a gweithgareddau hysbysebu yng Nghymru neu wedi'u hanelu at y cyhoedd yng Nghymru fel rhan o weithgarwch ledled y DU, byddwn yn darparu'r holl ddeunydd perthnasol ar ffurf ddwyieithog, neu ar wahân ar ffurf Cymraeg a Saesneg. Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd – a bydd y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd a byddant yr un mor hygyrch.
- 12.2** Bydd unrhyw hysbysebion a roddir mewn papurau newydd Saesneg (neu gyhoeddiadau tebyg) a ddosberthir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, yn ddwyieithog, neu byddant yn ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân gyda'r ddau fersiwn yn ymddangos ar yr un pryd, ac yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd.
- 12.3** Mewn cyhoeddiadau Cymraeg, bydd hysbysebion yn Gymraeg yn unig.
- 12.4** Darperir hysbysebion ar y teledu, yn y sinema ac ar y radio yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd ymgyrchoedd teledu sy'n ymddangos ar S4C yn Gymraeg. Bydd ymgyrchoedd radio a ddarlledir yn ystod rhaglenni Cymraeg ar orsafoedd radio masnachol yn Gymraeg. Lle bynnag y bo modd a phryd y gellir cyfiawnhau hynny'n economaidd, byddwn yn osgoi defnyddio isdeitlau Cymraeg, neu ddybio hysbysebion i'r Gymraeg (ac eithrio trosleisio).
- 12.5** Pan fyddwn yn sefydlu llinellau ymateb dros y ffôn a ffyrdd eraill o ymateb i ymgyrchoedd yng Nghymru, byddwn yn darparu gwasanaeth Cymraeg.
- 12.6** Wrth staffio stondinau arddangosfeydd ymgyrchoedd, ac yn arddangos yng Nghymru, byddwn yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ar gael i hwyluso sgysiau Cymraeg.

### 13. Cyhoeddiadau defnyddwyr

---

- 13.1** Byddwn yn cyhoeddi ein Hadroddiad Blynyddol, ein dogfen gorfforaethol flaenllaw, yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg.
- 13.2** I sicrhau ein bod yn canolbwyntio ein hadnoddau'n gyfrifol, byddwn yn sicrhau bod ein dull o sicrhau bod cyhoeddiadau generig ar gael yn ddwyieithog yn seiliedig ar ddull cymesur a rhesymol.
- 13.3** Bydd deunyddiau a chyhoeddiadau corfforaethol ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg:
- Lle maent yn ymwneud yn benodol â Chymru

- Pan fydd y pwnc yn awgrymu y dylid ei gyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg
- Pan fydd y gynulleidfa ddisgwylidig, a'u disgwyladau, yn awgrymu y dylai fod ar gael yn Gymraeg a Saesneg

Bydd dogfen sgrinio bwrpasol yn cael ei ddefnyddio i sicrhau cysondeb.

- 13.4** Yr eithriad i hyn yw pan na fwriedir adroddiad neu adran o adroddiad ar gyfer y cyhoedd neu os yw'n debygol o fod â darllenwyr cyfyngedig iawn.
- 13.5** Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, lle byddai un ddogfen yn rhy hir neu swmpus), bydd y ddwy fersiwn o faint ac ansawdd cyfartal. Ein harfer fydd sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael mewn amser rhesymol a'u bod yr un mor hygyrch. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.
- 13.6** Os nad yw ar gael yn rhad ac am ddim, ni fydd pris dogfen ddwyieithog yn fwy na phris cyhoeddiad un iaith – a bydd pris fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân yr un fath.
- 13.7** Bydd yr uchod hefyd yn berthnasol i ddeunydd sydd ar gael yn electronig ar ein gwefan neu fel arall.

## 14. Gwefannau

---

- 14.1** Bydd gennym adran bwrpasol ar gyfer y Gymraeg ar wefan yr FCA a fydd yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg, dolenni i gyhoeddiadau a ffurflenni dwyieithog yn ogystal â'r cynllun hwn a'r cynllun gweithredu cysylltiedig. Bydd yr adran Gymraeg ar gael yn rhwydd o gyswllt amlwg ar yr hafan.
- 14.2** Bydd y dudalen we Gymraeg yn cynnwys 'ffurflen cysylltu â ni' Gymraeg lle gall siaradwyr Cymraeg lenwi ffurflen gyswllt gydag ymholiadau cyffredinol.
- 14.3** Pan fyddwn yn cynllunio gwefannau newydd, neu'n ailddatblygu ein gwefannau presennol, byddwn yn ystyried ein rhwymedigaethau o dan y cynllun hwn yn ogystal â chyhoeddiad Comisiynydd y Gymraeg ar Dechnoleg, Gwefannau a Meddalwedd [technolog-gwefannau-a-meddalwedd-technology-websites-and-software-1.pdf](#) (comisiynyddygymraeg.cymru)
- 14.4** Pan fyddwn yn postio cyhoeddiadau Saesneg ar ein gwefannau, os ydynt ar gael, bydd y fersiynau Cymraeg yn cael eu postio ar yr un pryd, os bydd fersiwn Cymraeg ar gael. Lle mae adnoddau ar gael yn Gymraeg, byddant hefyd ar gael ochr yn ochr â'r adnodd Saesneg ar ein gwefan.

## 15. Cyfryngau cymdeithasol

---

- 15.1** Byddwn yn parhau i ddatblygu ein ffrwd Twitter gorfforaethol Gymraeg bwrpasol lle caiff trydariadau a gynllunnir eu postio yn Gymraeg ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg. Yn gyffredinol, ni fydd yn ymarferol i drydariadau brys (heb eu cynllunio) neu drydariadau

sy'n ymwneud ag ymyriadau rheoleiddiol penodol fod ar gael yn Gymraeg. Lle y bo'n bosibl, bydd negeseuon trydar brys sy'n ymwneud â Chymru yn cael eu postio ar yr un pryd â'r Saesneg.

- 15.2** Pan fydd person yn cysylltu â'r FCA drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, byddwn yn ymateb yn Gymraeg (os oes angen ateb a bod hynny'n briodol). Yn unol â'n polisi cyfryngau cymdeithasol, nid ydym fel arfer yn ymgysylltu drwy Twitter yn Gymraeg nac yn Saesneg.

## 16. Ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig

---

- 16.1** I sicrhau ein bod yn canolbwyntio ein hadnoddau'n gyfrifol, byddwn yn sicrhau bod ein dull o wneud ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig ar gael yn ddwyieithog yn seiliedig ar ddull cymesur a rhesymol.

- 16.2** Bydd ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg:

- Lle maent yn ymwneud yn benodol â Chymru
- Pan fydd y pwnc yn awgrymu y dylid ei gyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg
- Pan fydd y gynulleidfa ddisgwylidig, a'u disgwyladau, yn awgrymu y dylai fod ar gael yn Gymraeg a Saesneg

Bydd dogfen sgrinio bwrpasol yn cael ei ddefnyddio i sicrhau cysondeb.

- 16.3** Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, lle byddai un ddogfen yn rhy hir neu swmpus), bydd y ddau fersiwn o faint ac ansawdd cyfartal. Byddwn yn sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd a'u bod yr un mor hygyrch. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

- 16.4** Pan fyddwn yn cofnodi gwybodaeth ar fersiynau Cymraeg o ffurflenni a anfonir at y cyhoedd, byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg.

- 16.5** Pan fyddwn yn cofnodi gwybodaeth ar ffurflenni dwyieithog a anfonir at y cyhoedd, byddwn yn gwneud hynny'n ddwyieithog oni bai ein bod yn gwybod y byddai'n well gan y derbynwyr dderbyn y wybodaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unig.

- 16.6** Pan fydd sefydliadau eraill sydd o dan drefniant contract gyda'r FCA yn dosbarthu ffurflenni ar ein rhan, byddwn yn sicrhau eu bod yn gwneud hynny yn unol â'r uchod.

## 17. Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff

---

- 17.1** Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff mewn papurau newydd Saesneg (neu gyfryngau tebyg) a ddosberthir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, yn ddwyieithog, neu'n ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd hysbysiadau yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg.

- 17.2** Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd.
- 17.3** Bydd unrhyw hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus neu hysbysiadau recriwtio staff a roddir mewn manau eraill yng Nghymru yn ddwyieithog.

## **18. Codi ymwybyddiaeth**

---

- 18.1** Byddwn yn hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg a ddarparwn drwy roi gwybod yn rhagweithiol i'r cyhoedd yng Nghymru drwy ohebiaeth ac ar ein gwymbodaeth ffonau Cymraeg, mewn digwyddiadau yng Nghymru ac ar ein gwefan a'n ffrwd twitter Cymraeg.

## **19. Datganiadau i'r wasg a chyswllt â'r cyfryngau**

---

- 19.1** Bydd datganiadau i'r wasg a anfonwn yn benodol at gyfryngau print a darlledu Cymraeg yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg lle mae terfynau amser yn caniatáu – neu yn ôl dewis iaith y sefydliad cyfryngau neu'r cyhoeddiad sy'n eu derbyn.
- 19.2** Pan fyddwn yn postio datganiadau i'r wasg ar ein gwefan sy'n benodol i Gymru, byddant yn cael eu postio yn Gymraeg ac yn Saesneg.

## Gweithredu'r Cynllun

### 20. Staffio, recriwtio, hyfforddiant iaith a hyfforddiant galwedigaethol

---

- 20.1** Er nad oes swyddi o fewn yr FCA ar hyn o bryd lle ystyrir bod y gallu i siarad Cymraeg yn 'hanfodol' neu'n 'ddymunol' rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod darpariaethau'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn yn cael eu cyflawni. Byddwn yn rhoi prosesau ar waith i hwyluso'r nod hwn a nodir yn y cynllun gweithredu, bydd y rhain yn cynnwys sesiynau briffio staff, canllawiau staff ac ymgyrch codi ymwybyddiaeth fewnol.

### 21. Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

---

- 21.1** Bydd yr angen i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg, a gweithredu yn unol â'r cynllun hwn, yn cael ei fodloni wrth i ni ddatblygu, dylunio a phrynu cynhyrchion a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.
- 21.2** Pryd bynnag y bo'n bosibl, ac y gellir ei gyfiawnhau'n economaidd, byddwn yn addasu ein systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu presennol i sicrhau eu bod yn ein galluogi i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg – ac yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn. Byddwn hefyd yn ystyried cyhoeddiad Comisiynydd y Gymraeg ar Dechnoleg, Gwefannau a Meddalwedd [technoleg-gwefannau-a-meddalwedd-technology-websites-and-software-1.pdf](#) (comisiynyddygyymraeg.cymru).

### 22. Gweithio mewn partneriaeth

---

- 22.1** Pan fyddwn yn arweinydd strategol ac ariannol mewn partneriaeth, bydd ein mewnbwn i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r cynllun hwn a byddwn yn annog y partneriaid eraill i gydymffurfio.
- 22.2** Pan fyddwn yn ymuno â phartneriaeth y mae sefydliad arall yn ei harwain, bydd ein mewnbwn i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r cynllun hwn a byddwn yn annog y partneriaid eraill i gydymffurfio.
- 22.3** Pan fyddwn yn bartner mewn consortiwm, byddwn yn annog y consortiwm i gydymffurfio â'r cynllun hwn. Wrth weithredu yn enw'r consortiwm, byddwn yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn.
- 22.4** Mae'r uchod yn cyfeirio at bartneriaethau ffurfiol yn unig sy'n ymdrin â'r gwasanaethau sydd ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru.

## 23. Trefniadau mewnol

---

- 23.1** Mae'r mesurau yn y cynllun hwn yn dwyn awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn ein sefydliad ac fe'u cymeradwywyd gan ein Pwyllgor Gweithredol ac fe'u cymeradwywyd gan y Prif Weithredwr.
- 23.2** Bydd rheolwyr yn gyfrifol am weithredu'r agweddau hynny ar y cynllun sy'n berthnasol i'w gwaith.
- 23.3** Byddwn yn penodi uwch aelod o staff i gydgyssylltu'r gwaith sydd ei angen i gyflawni, monitro ac adolygu'r cynllun hwn.
- 23.4** Byddwn yn paratoi, ac yn cynnal, cynllun gweithredu manwl i'w rannu â Chomisiynydd y Gymraeg, gan nodi sut y byddwn yn sicrhau y byddwn yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn. Daw'r cynllun gweithredu i rym ar y dyddiad y daw'r cynllun i rym. Bydd y cynllun yn cynnwys targedau, terfynau amser ac adroddiad ar gynnydd yn erbyn pob targed.
- 23.5** Byddwn yn hysbysu'r staff am y cynllun, a'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan mewn lle amlwg.
- 23.6** Byddwn yn cynhyrchu canllawiau i'n staff i sicrhau eu bod yn gwybod sut i weithredu'r mesurau sydd yn y cynllun hwn.
- 23.7** Diwygir canllawiau presennol neu ganllawiau tebyg a ddefnyddir gan ein staff i adlewyrchu'r mesurau a geir yn y cynllun hwn.
- 23.8** Byddwn, fel y bo'n briodol, yn trefnu sesiynau briffio a hyfforddi i'n staff gynyddu ymwybyddiaeth o'r cynllun hwn – ac i egluro sut y bydd yn effeithio ar eu gwaith o ddydd i ddydd.
- 23.9** Byddwn yn sicrhau ein bod yn defnyddio cyfieithwyr, cyfieithwyr ar y pryd a chynghorwyr cymwys a phrofiadol yn unig i helpu i gyflawni'r cynllun hwn, fel y bo'n briodol.

## 24. Monitro

---

- 24.1** Byddwn yn monitro ein cynnydd o ran cyflawni'r cynllun hwn yn erbyn y targedau a nodir yn y cynllun gweithredu cysylltiedig.
- 24.2** Bydd yr uwch aelod o staff a benodir i gydgyssylltu'r gwaith sydd ei angen i gyflawni, monitro ac adolygu'r cynllun hwn yn adrodd i uwch reolwyr ar y cynnydd hwnnw'n flynyddol.
- 24.3** Bydd ein gweithdrefnau monitro ac adrodd presennol yn cynnwys cyfeiriad at gynnydd o ran cyflawni'r cynllun hwn, fel y bo'n briodol.
- 24.4** Byddwn yn adrodd i Gomisiynydd y Gymraeg yn flynyddol ac yn ôl y gofyn, yn amlinellu'r cynnydd o ran cyflawni'r cynllun a'r cynllun gweithredu hwn.

## 25. Adolygu a diwygio'r cynllun

---

- 25.1** Byddwn yn adolygu'r cynllun hwn o fewn tair blynedd ar ôl iddo ddod i rym.
- 25.2** Er enghraifft, o bryd i'w gilydd, efallai y bydd angen i ni adolygu'r cynllun hwn, neu gynnig gwelliannau i'r cynllun hwn, oherwydd newidiadau i'n swyddogaethau, neu i'r amgylchiadau pan fyddwn yn ymgymryd â'r swyddogaethau hynny, neu am unrhyw reswm arall.
- 25.3** Ni wneir unrhyw newidiadau i'r cynllun hwn heb gymeradwyaeth Comisiynydd y Gymraeg.

## 26. Cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwella

---

- 26.1** Ein nod yw darparu'r gwasanaeth gorau posibl bob amser ond, weithiau, gall pethau fynd o chwith. Ystyrir bod cwynion sy'n ymwneud â'r cynllun hwn, neu awgrymiadau ar gyfer gwella, yn gyfle i wella ein gwasanaethau, a dylid eu cyfeirio at yr uwch aelod o staff sy'n gyfrifol am y cynllun, yn y cyfeiriad a ganlyn:

Emma Stranack,  
Pennaeth Ymgysylltu Defnyddwyr, Cynnwys a Sianelau,  
Awdurdod Ymddygiad Ariannol  
Prif Swyddfa'r FCA  
12 Endeavor Square  
Llundain  
E20 1JN

Neu drwy e-bost: [cymraeg@fca.org.uk](mailto:cymraeg@fca.org.uk)

- 26.2** Bydd yr FCA yn cydweithredu â'r Comisiynydd er mwyn datrys cwynion ac yn ystod unrhyw ymchwiliadau a gynhelir o dan Adran 17 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg.



# Atodiad 1

## Cynllun iaith Gymraeg yr FCA – Cynllun Gweithredu

### Ymdrin a'r cyhoedd yng Nghymru

Cyf	Adran	Gweithred	Targed
A1	7.3	Byddwn yn sicrhau bod un cyswllt e-bost ar gael ac yn ei hyrwyddo ar gyfer pob ymholiad cyffredinol yn y Gymraeg.	Diwedd blwyddyn 1
A2	7.4	Sicrhau fod ein gohebiaeth awdurdodi gyntaf gyda chwmmi, unigolyn, grŵp neu sefydliad yng Nghymru yn cynnwys trosolwg o'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg ac yn cadarnhau fod yr FCA yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a na fydd gohebu a ni yn y Gymraeg yn arwain at oedi.	Diwedd blwyddyn 1
A3	7.10	Pan fyddwn yn anfon gohebiaeth dorfol a fwriedir ar gyfer cynulleidfa yng Nghymru'n unig, byddwn yn gwneud hynny'n ddwyieithog.	Diwedd blwyddyn 1
A4	8.1	Byddwn yn darparu opsiwn iaith Gymraeg ar ein prif linellau cymorth ffôn i Ddefnyddwyr a Chwmnïau lle gall galwyr siarad â'r FCA yn Gymraeg. Caiff hyn ei hwyluso drwy wasanaeth cyfieithu ar y pryd pwrpasol.	Diwedd blwyddyn 2

### Ein wyneb cyhoeddus

Cyf	Adran	Gweithred	Targed
A5	14.2	Darparu ffurflen 'cysylltu â ni' Gymraeg ar ein gwefan lle gall siaradwyr Cymraeg lenwi ffurflen gyswllt gydag ymholiadau cyffredinol.	Diwedd blwyddyn 2
A6	-	Darparu rhestr o'r cyhoeddiadau ar gael yn y Gymraeg ar ein gwefan ac o fewn ein Adroddiad Blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg	Diwedd blwyddyn 1

### Gweithredu'r cynllun

Cyf	Adran	Gweithred	Targed
A7	23.6 23.7	Cynhyrchu canllawiau i staff i sicrhau eu bod yn gwybod sut i weithredu'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn.	Diwedd blwyddyn 1
A8	23.8	Trefnu sesiynau briffio a hyfforddiant i staff allweddol i gynyddu ymwybyddiaeth o'r cynllun hwn – ac esbonio sut fydd yn effeithio ar eu gwaith o ddydd i ddydd	Diwedd blwyddyn 1

Cyf	Adran	Gweithred	Targed
A9	24.2	Adrodd i uwch reolwyr ar y cynnydd yng ngweithredu'r cynllun yn flynyddol.	Diwedd blwyddyn 1
A10	24.4	Paratoi adroddiad i Gomisiynydd y Gymraeg yn flynyddol ac ar gais, gan amlinellu'r cynnydd wrth gyflawni'r cynllun hwn a'r cynllun gweithredu.	Diwedd blwyddyn 1
A11	25.1	Adolygu'r cynllun hwn o fewn tair mlynedd iddo ddod i rym.	Diwedd blwyddyn 3

## Atodiad 2

# Canllaw cynhyrchu deunyddiau defnyddiwr, cyhoeddiadau corfforaethol a ffurflenni FCA

Mae Cynllun Iaith Gymraeg yr FCA yn ymrwymo i fod yn rhagweithiol ynglŷn â gwneud deunyddiau defnyddwyr, cyhoeddiadau corfforaethol a ffurflenni ar gael yn Gymraeg. I sicrhau ein bod ni yn defnyddio ein hadnoddau yn gyfrifol, mi fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod ein proses o ystyried gwneud cyhoeddiadau generig ar gael yn ddwyieithog yn gymesur a rhesymol.

Bydd deunyddiau, cyhoeddiadau corfforaethol a ffurflenni ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg pan:


- Maen nhw yn ymwneud â Chymru yn uniongyrchol
- Mae'r pwnc yn awgrymu y dylid cyhoeddi'r ddogfen yn Gymraeg ac yn Saesneg
- Mae'r gynulleidfa ddisgwyliedig, a disgwyliadau'r gynulleidfa honno, yn awgrymu y dylai fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg

Yr eithriadau i'r ymroddiad hwn yw adroddiadau neu rannau o adroddiad na fydd yn cael eu darllen gan y cyhoedd neu mai dim ond nifer fechan fydd yn darllen yr adroddiad, fel cyhoeddiadau arbenigol a thechnegol.

Mae'r canllaw yma wedi cael ei gynhyrchu er mwyn cydymffurfio gyda'r cynllun iaith.

Mae cyngor ar gael gan ein hymgynghorwyr iaith, Ateb.

### Cyhoeddiadau corfforaethol a deunyddiau defnyddiwr



## Nodiadau

1 = Angen cytuno ar ddiffiniad ar gyfer deunyddiau defnyddiwr neu gyhoeddiadau corfforaethol – awgrymu y dylai gynnwys pamffledi defnyddiwr a chyhoeddiadau wedi eu dylunio i ddarparu gwybodaeth gyda'r cyhoedd am yr FCA sydd ddim yn wybodaeth arbenigol neu reoleiddiol.

2 = Mae hyn yn ymwneud â'r 'prawf disgwyliadau'.

3 = I'w ystyried yn berthnasol mewn amgylchiadau eithriadol, yn cynnwys cais gan sefydliad bartner neu pan mae'n rhesymol i ddarparu'r ddogfen yn ddwyieithog. Ateb ar gael i ymgynghori.

4 = Pan fo'r cyhoeddiad neu bamffled ar gyfer gynulleidfa Gymreig – neu o bosib pan mae cyhoeddiad yn delio gyda mater Cymreig. Gall enghreifftiau gynnwys adroddiad blynyddol y Cynllun Iaith, cyhoeddiad yn ymwneud gyda Llywodraeth Cymru neu Finance Wales.

5 = Mae hwn hefyd yn ymwneud â'r 'prawf disgwyliadau'. Gall enghreifftiau gynnwys materion fel cyhoeddiad ar bwerau datganoli gan gynnwys unrhyw gyfeiriad at ddatganoli yn yr Alban a Gogledd Iwerddon hefyd neu gyhoeddiadau yn amlinellu polisi corfforaethol yr FCA ynglŷn â ieithoedd oni bai am Saesneg.

6 = Er enghraifft pamffledi defnyddiwr sydd yn cael eu cyhoeddi i godi ymwybyddiaeth mater sydd o fudd i'r cyhoedd neu i ddarparu cyngor defnyddiwr cyffredinol. Dylid ystyried demograffig ieithyddol y gynulleidfa (e.e., pobl ifanc neu hŷn)

## Atodiad 3

# Canllaw Cyfarfodydd a Digwyddiadau i FCA – Cynllun Iaith Gymraeg

Nodyn rhagarweiniol

Mae'r rhestr wirio hon ond yn berthnasol i gyfarfodydd a digwyddiadau sy'n cael eu trefnu neu eu cynllunio gan yr FCA, sy'n dod o dan un neu fwy o'r canlynol:

- Cyfarfodydd a digwyddiadau sy'n cael eu cynnal yng Nghymru
- Cyfarfodydd a fyddai fel arfer yn cael eu cynnal yng Nghymru, ond oherwydd cyfyngiadau, yn cael eu cynnal yn rhithiol
- Cyfarfodydd a digwyddiadau rhithiol lle mae'r cyfranogwyr/cynulleidfa sy'n bwriadu mynychu wedi'u lleoli yng Nghymru

### Mathau perthnasol o gyfarfodydd a digwyddiadau

Wedi eu hystyried o fewn y maes	Wedi eu hystyried tu allan i'r maes
<ul style="list-style-type: none"><li>• Digwyddiadau defnyddwyr sy'n agored i'r cyhoedd gyda neu heb wahoddiad penodol.</li><li>• Cyfarfodydd neu ddigwyddiadau gydag Aelodau o'r Senedd</li><li>• Digwyddiadau lansio</li><li>• Digwyddiadau ymgynghori sydd yn agored i'r cyhoedd heb wahoddiad penodol</li><li>• Cyfarfodydd neu digwyddiadau gyda cyrff cyhoeddus neu sefydliadau 3ydd sector</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Cyfarfodydd wyneb i wyneb gyda cwmnïau a reoleiddir (yn unigol neu fel grŵp)</li><li>• Cyfarfodydd a digwyddiadau wedi eu trefnu gan drydydd parti, gan gynnwys cyflogwyr mawr</li><li>• Cyfarfodydd a digwyddiadau i ddefnyddwyr sydd ddim yn gyffredinol ar agor i'r cyhoedd*</li></ul> <p>* Ar gyfer Cyfarfodydd o'r fath, gall ffactorau ddylanwadu ar welediad y Gymraeg, gan gynnwys lleoliad a demograffeg cyfranogwyr gwadd – am gymorth cysylltwch ag Ateb fel rhan o'r cam cynllunio.</p>

**Gofynion allweddol sydd wedi eu hystyried ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau o fewn y maes**

Cam	Gweithred	Nodyn/ystyriaeth
Cynllunio	Gofynnwch am gyngor cynnar ar: Logisteg Cyfieithiadau (deunydd a cydamserol) Cynnig Cymraeg rhagweithiol	Gall Ateb, sef ymgynghorwyr iaith Gymraeg yr FCA, gynnig cymorth ac arweiniad.
Hyrwyddo	Hysbysebion dwy-ieithog neu deunydd hyrwyddo gofynnol	Ystyriwch ddefnyddio ffrwd twitter Cymraeg yr FCA os yw'r cyfarfod neu'r digwyddiad am gael ei hyrwyddo'n ehangach.
Gwahoddiad	Darparu gwahoddiad dwy-ieithog	Lle bod angen gwahoddiadau
Cofrestru	Darparu cofrestr dwy-ieithog	Lle bod ffurflenni yn ofynnol. Mae defnyddio ffurflenni yn galluogi'r FCA i ofyn i gynrychiolwyr/cyfranogwyr os ydynt yn dymuno cyfrannu yn Gymraeg wrth gofrestru, fel bod modd cynllunio adnoddau – Ateb i gynghori ar eiriad priodol
Cyfieithu	Ystyriwch ofynion cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfod neu ddigwyddiad.	Dim ond os yw mwy nag 20% gynrychiolwyr/cyfranogwyr wedi datgan eu bod yn dymuno cyfrannu yn Gymraeg y mae angen cyfleusterau cyfieithu (yn seiliedig ar niferoedd sydd wedi cofrestru) Ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau sydd yn agored heb wahoddiad bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i Saesneg ar gael. Gall Ateb, sef ymgynghorwyr iaith Gymraeg yr FCA, gynnig cymorth ac arweiniad. O'r Gymraeg i'r Saesneg bydd cyfieithu bob amser, i gynorthwyo'r di-Gymraeg.
Deunydd ysgrifenedig a sy'n cael eu arddangos	Sicrhau bod yr holl ddeunydd sy'n cael eu arddangos yn ddwy-ieithog	Gall Ateb, sef ymgynghorwyr iaith Gymraeg yr FCA, gynnig cymorth ac arweiniad, yn ogystal a chyfieithu unrhyw ddeunydd gofynnol.

